## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

## NAFWC 2008 (Papur 1A)

**Dyddiad:** 8 Mai 2008
**Amser:** 9.00am -11.00am
**Lleoliad:** 4B
**Enw'r awdur a rhif cysylltu:** Wayne Cowley, estyniad 8161

# Cyflogi aelodau o'r teulu

***Paratowyd y papur hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried. Nodwyd ei fod yn addas i gael ei gyhoeddi ar ôl ystyriaeth o'r fath yn unol â rheolau'r Comisiwn o ran cynnal busnes. Ni chaniateir cyhoeddi na datgelu cynnwys y papur hwn cyn amser oherwydd gall effeithio ar drafodaethau'r Comisiwn.***

**Diben y papur a chrynodeb o faterion**

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndir am gyflogi aelodau o deuluoedd Aelodau'r Cynulliad i fod yn Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ac yn cynnig opsiynau.

**Argymhellion (gan gynnwys dyddiad cyflawni)**

2. Bod y Comisiwn

- Yn nodi canfyddiadau adroddiad diweddar Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin;
- Yn nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y Cynulliad ar hyn o bryd;

- Yn argymell cyflwyno Cofrestr Aelodau o'r Teulu a Gyflogir yn unol â'r hyn a awgrymir ym mharagraff 17 isod ac yn gwahodd y Pwyllgor Safonau i ystyried hyn;

- Yn cytuno y dylid "capio" bonysau sy'n daladwy i staff cymorth unigol ar lefel o 15 y cant y cyflog a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno;

- Yn cytuno y dylid anfon yr Arweiniad a nodir yn Atodiadau B and C i Aelodau'r Cynulliad;

- Yn cytuno, ar ôl unrhyw gamau cychwynnol a gymerir gan y Comisiwn, y caiff y mater hwn ei adolygu yn ystod cyfnod nesaf yr adolygiad o'r cymorth a roddir i Aelodau'r Cynulliad.

**Trafodaeth**

3. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar Aelodau Cynulliad o ran cyflogi aelodau o'u teuluoedd fel Staff Cymorth. O dan Reol Sefydlog 31, mae'n ofynnol bod Aelodau'n cofrestru'r ffaith eu bod yn cyflogi eu partneriaid neu blant dibynnol. Mae hyn yn cynnwys eu cyflogi gan yr Aelod i fod yn Staff Cymorth Aelod Cynulliad.

Mae cyflogi perthnasau Aelodau wedi bod yn destun trafodaeth helaeth yn dilyn adroddiad diweddar Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin (http://www.parliament.the-stationery-office.co.uk/pa/cm200708/cmselect/cmstnprv/280/280.pdf).

4. Yn ei hanfod, darganfu Comisiynydd Safonau Tŷ'r Cyffredin bod yr Aelod Seneddol dan sylw wedi talu bonysau uwch i'w fab na'r hyn a ganiateir a'i fod hefyd wedi talu ei fab ar raddfa nad oedd ei gymwyseddau a lefel cyfrifoldeb ei waith yn cyfiawnhau. Roedd y Comisiynydd hefyd yn credu nad oedd yn debygol bod mab yr Aelod Seneddol wedi cyflawni ymrwymiadau'i gontract.

5. Mae Adran 10 Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 2006 yn pennu graddfeydd cyflog ar gyfer staff cymorth ac yn disgrifio mecanwaith lle mae'r cyflog cychwynnol arferol ar waelod y band cyflog priodol. Ni all Aelodau benodi ar bwynt uwch heb gyflwyno achos a fyddai fel arfer yn cynnwys crynodeb o yrfa'r ymgeisydd a'i lefel cyflog blaenorol. Mae swm cymharol fach o arian (£5,600 i bob Aelod Cynulliad ar hyn o bryd) ar gael i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, profion llygaid, a thaliadau bonws. Hyd yn oed pe bai'r swm hwn yn cael ei gynyddu drwy'r Lwfans Costau Swyddfa i'r mwyafswm a ganiateir, byddai cyfanswm o £9,350 ar gael i dalu'r holl staff a gyflogir. Byddai'n anarferol iawn gweld y cyfanswm hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu bonws un aelod staff.

6. Byddai’r trefniadau sy’n weithredol wedi rhoi rhywfaint o amddiffyniad o dan yr amgylchiadau a gododd yn achos Mr Conway. Byddent wedi:

- Atal penodiad cychwynnol ar unrhyw lefel yn uwch na phwynt cychwyn y raddfa berthnasol;

- Cyfyngu ar y cyfanswm a oedd ar gael i dalu bonysau'r holl staff cymorth a gyflogwyd gan yr Aelod.

7. Sut bynnag, ni fyddent wedi:

- Nodi a oedd y gweithiwr yn perthyn i’r Aelod (nid yw’r drefn gofrestru bresennol yn ei gwneud yn ofynnol bod enw pob perthynas a gyflogir yn cael ei ddatgelu ac ni fyddai’r rhai sy’n gyfrifol am weinyddu’r system yn gwybod am berthynas teuluol bob tro);

- Gwarantu bod y gweithiwr yn gweithio’r oriau a nodwyd yn y contract gwaith neu ei fod yn gwneud gwaith a oedd yn gymesurol â lefel y penodiad;

- Nodi bod y gweithiwr ar gyfnod o absenoldeb salwch (a allai effeithio ar y cyflog a oedd yn daladwy, yn dibynnu ar hyd y cyfnod o absenoldeb). Yn aml, yr unig adeg y caiff Tîm Adnoddau Dynol a Lwfansau’r Aelodau wybod am absenoldeb salwch un o Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad yw pan fydd yr AC sy’n ei g/chyflogi am hawlio’r Lwfans Staff Dros Dro;

- Atal talu’r bonws hyd at y mwyafswm sydd ar gael i un person.

8. Os yw’r Comisiwn am ehangu’r system i gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth, mae nifer o opsiynau ar gael.

*Gwahardd cyflogi perthnasau’n llwyr*

9. Er efallai bod hwn yn ymddangos fel yr ateb symlaf ar yr olwg gyntaf, mae nifer o anawsterau’n codi.

10. Yn gyntaf, mae’n cosbi Aelodau Cynulliad nad ydynt wedi gwneud unrhyw beth o’i le.

11. Yn ail, byddai’n golygu y byddai’n rhaid diswyddo’r perthnasau hynny a gyflogir gan Aelodau’r Cynulliad ar hyn o bryd. Byddai’r broses hon yn cymryd amser gan fod yn rhaid ei gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Cyflogaeth 2008 a’r Rheoliadau Deddf Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 2004. Byddai rhaid hefyd cadw at y cyfnodau o rybudd a nodir mewn contractau unigol.

12. Yn drydydd, efallai bod risg y bydd achosion o ddiswyddiad annheg yn dod gerbron (er nad yw hyn yn debygol gan y byddai’r unigolion yn perthyn i’r Aelodau Cynulliad). Mae nifer o resymau dros ddiswyddo sy’n cael eu hystyried i fod yn dderbyniadwy, sef:

- Gallu;
- Ymddygiad;
- Swydd-di-alw-amdani;
- Mynd yn groes i ddeddfiad;
- Unrhyw reswm sylweddol arall a fyddai’n cyfiawnhau diswyddo gweithiwr mewn swydd a gyflenwyd gan y gweithiwr hwnnw (“Some other substantial reason” - SOSR);
- Ymddeoliad.

13. Yr unig gategori y byddai diswyddiad yn y sefyllfa a drafodir yma’n syrthio iddo, yn y sefyllfa sydd ohoni, yw’r categori “unrhyw reswm sylweddol arall” (heblaw bod Senedd y DU yn cyflwyno deddfwriaeth a fyddai’n mynd i’r afael a’r mater hwn). Os byddai achos yn mynd gerbron Tribiwnlys Cyflogaeth y risg fyddai y gallai’r Tribiwnlys benderfynu bod y diswyddiad yn annheg ac yna mae’n bosibl y byddai’n rhaid i’r Aelod Cynulliad dalu iawndal.

14. Sut bynnag, pe bai’r Cynulliad yn cymeradwyo Mesur i’r perwyl hwn, byddai’r diswyddiad yn syrthio i’r categori o “fynd yn groes i ddeddf” a byddai hyn yn rhoi amddiffyniad cryfach.

*Caniatáu bod contractau cyfredol yn parhau ond yn gwahardd cyflogi unrhyw berthynas o’r newydd.*

15. Byddai’r opsiwn hwn yn osgoi’r risgiau a amlinellir yn yr opsiwn blaenorol ond ni fyddai’n cael gwared â’r perygl o gyhuddiadau tebyg i’r rhai a wnaethpwyd yn achos Mr Conway. Byddai’r risg o achos tebyg yn codi yma yn parhau am gyfnod penagored. Ymhellach, nid fyddai’r fath opsiwn yn tawelu meddyliau’r cyhoedd mewn perthynas â thryloywder trefniadau sy’n ymwneud â theuluoedd Aelodau’r Cynulliad.

*Ehangu Cofrestr Buddiannau’r Aelodau i gynnwys yr holl aelodau teulu a gyflogir gan Aelodau’r Cynulliad.*

16. Byddai hyn yn rhoi cofnod clir a thryloyw o’r holl aelodau teulu a gyflogir gan Aelodau Cynulliad mewn ffordd a fyddai’n hawdd i’r cyhoedd ei weld. Sut bynnag, byddai cosbau troseddol i’w talu os na lwyddai pobl i gydymffurfio â’r gofynion a bennwyd drwy gofrestru.

*<u>Cofrestr newydd (yn debyg i'r gofrestr ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 32) yn gofyn bod pob perthynas a gyflogir gan AC yn cael ei gofrestru/chofrestru.</u>*

17. Byddai hyn yn rhoi cofnod clir a thryloyw o'r holl berthnasau a gyflogir gan Aelodau Cynulliad mewn ffordd a fyddai'n hawdd i'r cyhoedd ei weld. Er na fyddai cosbau troseddol i'w talu os na lwyddai pobl i gydymffurfio, byddai unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r fath yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiynydd Safonau sy'n golygu y gall ymateb.

*<u>Cofnod o bob aelod teulu a gyflogir gan Aelodau Cynulliad a gynhelir gan Dîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelod nad yw'n dod o fewn cwmpas y Rheolau Sefydlog.</u>*

18. Mae bron yn anochel y byddai unrhyw gofnod o'r fath yn dod yn destun cais Rhyddid Gwybodaeth cyn gynted â bod pobl yn clywed amdano ac efallai y caiff y Cynulliad ei farnu am geisio cuddio'r wybodaeth.

19. O ganlyniad, cofrestr newydd a sefydlir yn unol â'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 17 fyddai'r ffordd orau ymlaen, yn cyfuno tryloywder a thegwch. Er mwyn sicrhau bod y fath gofrestr yn diwallu holl anghenion y Cynulliad, efallai yr hoffai'r Comisiwn geisio barn y Pwyllgor Safonau o ran datblygu cynigon ffurfiol ar gyfer newid Rheolau Sefydlog i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes ac i'r Cynulliad yn y pen draw.

20. Yn achos unrhyw un o'r tri opsiwn diwethaf, caiff y math o fanylion y gellir eu cofnodi mewn cofrestr o ba bynnag natur eu hawgrymu yn Atodiad A. Byddai'n hawdd ychwanegu blwch i'w dicio i'r ffurflen a lenwir gan Aelod Cynulliad wrth gyflogi gweithiwr newydd, yn gofyn a yw'r Aelod yn perthyn i'r gweithiwr ac yn ei atgoffa bod angen cofrestru hyn.

*<u>Bonysau</u>*

21. Hefyd, dylid ystyried a ddylid cyfyngu ar nifer y bonysau y gellir eu talu i unigolyn yn ystod unrhyw flwyddyn. Mae Tŷ'r Cyffredin wedi gosod terfyn ar unrhyw fonys(au) a delir i unigolyn yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol, sef 15 y cant o'r cyflog a dderbyniwyd. Sut bynnag, torrwyd y rheol hon yn achos mab Mr Conway.

22. Os bydd y Comisiwn yn cytuno ar derfyn o'r fath, gellid anfon yn Nodyn Canllaw yn Atodiad B i bob Aelod Cynulliad.

*<u>Cadw cofnodion</u>*

23. Dylid cyhoeddi canllawiau ar y math o recordiau y dylai Aelodau Cynulliad eu cadw mewn perthynas â'u staff (teulu a staff eraill) gan fod hyn wedi'i nodi

fel un o’r gwendidau yn achos Mr Conway. Ceir Nodyn Cyfarwyddyd drafft yn Atodiad C.

## Materion llywodraethu

## Goblygiadau ariannol

24. Mae darpariaethau ar gyfer talu lwfansau wedi’u cynnwys yng nghyllideb y Comisiwn sydd eisoes wedi’i chymeradwyo gan y Cynulliad. Ni fyddai’r cyfanswm sy’n daladwy’n cynyddu o dan unrhyw un o’r argymhellion a nodir yn y papur hwn.

## Asesiad risg

25. Mae’n ymddangos mai’r prif risgiau yw:

- y risg i enw da’r Cynulliad os byddai Aelodau Cynulliad yn defnyddio arian cyhoeddus i dalu cyflog i’w perthnasau heb iddynt gyflawni gwaith priodol yn gyfnewid am eu cyflog;

- y risg i enw da’r Cynulliad os caiff ei gyhuddo o geisio cuddio gwybodaeth rhag y cyhoedd os na gaiff unrhyw beth ei wneud.

26. Gellir lliniaru risgiau hyn drwy weithredu i gyfyngu ar y potensial ar gyfer camddefnyddio’r cyfleuster a thrwy gyfeirio’r mater at gyfnod nesaf gwaith y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau’r Cynulliad, i weld pa gamau mwy radical y gallai fod eu hangen.

## Cydymffurfio

27. Mae Adran 20(6) Deddf Llywodraeth Cymru’n caniatáu rhoi’r cyfrifoldeb i Gomisiwn y Cynulliad dros osod lefelau lwfansau Aelodau’r Cynulliad. Mae Rheol Sefydlog 1.7 yn rhoi’r cyfrifoldeb hwn i’r Comisiwn.

28. Rhaid i unrhyw newidiadau i’r Rheolau Sefydlog gael eu cytuno gan fwyafrif o ddwy ran o dair o Aelodau’r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

29. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar ddyletswyddau statudol y Cynulliad mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol neu ddatblygu cynaliadwy.

**Mai 2008**

**Atodiad A**

**Eitemau posibl i'w cynnwys mewn cofrestr o berthnasau Aelodau'r Cynulliad a gyflogir**

- Enw'r Aelod;
- Enw'r gweithiwr;
- Perthynas
  - Priod/Partner Sifil/Cymar;
  - Cyn-briod/ Cyn-bartner Sifil/Cyn-gymar;
  - Plentyn (yn cynnwys llysblentyn, plentyn maeth, plentyn mabwysiedig neu blentyn yng nghyfraith);
  - Wyr/ Wyres (yn cynnys llyswyr/wyres, wyr maeth/wyres faeth, wyr/wyres mabwysiedig neu wyr/wyres yng nghyfraith);
  - Brawd neu chwaer;
  - Rhiant (yn cynnwys llysriant, rhiant maeth, rhiant mabwysiedig neu riant yng nghyfraith);
  - Taid/Nain
  - Ewythr/Modryb/Cefnder/Cyfnither (yn cynnwys llys, maeth neu fabwysiedig);
- Dyddiad dechrau ei gyflogaeth/chyflogaeth;
- Dyddiad gorffen ei gyflogaeth/chyflogaeth;
- Nifer yr oriau a weithiwyd bob wythnos;
- Band Cyflog Staff Cymorth Aelod Cynulliad.

**Atodiad B**

## CANLLAWIAU POSIBL I’W HANFON I AELODAU’R CYNULLIAD

## TALU BONYSAU I STAFF CYMORTH AELODAU’R CYNULLIAD

Yn ei gyfarfod ar [dyddiad] cytunodd Comisiwn y Cynulliad y dylid gosod terfyn ar lefelau’r bonysau y gellir eu talu o’r Lwfans Cyflogau Staff i unrhyw un o Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad.

Yn effeithiol ar unwaith, ni ellir talu bonws i unrhyw un o Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad os yw’r bonws hwnnw’n codi cyfanswm y bonysau a delir yn y flwyddyn honno uwchben 15 y cant o’r cyflog crynswth (cyn unrhyw drefniant aberthu cyflog a ymrwymwyd iddo) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

**Atodiad C**

## CANLLAWIAU POSIBL I'W HANFON I AELODAU'R CYNULLIAD

### CYFLOGI AELODAU'R TEULU – Gofynion cadw cofnod

Er mwyn cadw ymddiriedaeth y cyhoedd o ran defnyddio arian cyhoeddus yn briodol, yn enwedig pan fydd Aelodau'n cyflogi staff cymorth o'u teuluoedd, atgoffir Aelodau y dylent gadw cofnod o oriau/patrymau gwaith bob un o'u staff. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys:

- Yr oriau a weithiwyd;
- Newidiadau i'w contractau (dylid hefyd rhoi gwybod amdanynt i Dîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelodau);
- Gwyliau blynyddol a gymerwyd;
- Achosion o absenoldeb oherwydd salwch (dylid hefyd rhoi gwybod amdanynt i Dîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelodau gan yr effeithir taliadau cyflog mewn rhai achosion);
- Prosiectau a weithiwyd arnynt;
- Os talwyd bonysau i staff, y rheswm dros eu talu.

Gallwch gael cyngor pellach drwy gysylltu â Thîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelodau.